

2007

**Datganiad
Ariannol
Statement
of Accounts**

Deddf Darlledu 1990

Cyflwynir Datganiad Ariannol
S4C i'r Senedd yn sgil Paragraff
13 (2) i Atodlen 6 Deddf Darlledu
1990 (c.42)

Datganiad Ariannol S4C 2007

11 Mehefin 2008

Broadcasting Act 1990

The Statement of Accounts for
S4C is presented to Parliament pursuant
to Paragraph 13 (2) to Schedule 6 of the
Broadcasting Act 1990 (c.42)

S4C Statement of Accounts for 2007

11 June 2008

Cynnwys Contents

04	Adroddiad yr Awdurdod	Report of the Authority
24	Datganiad i Aelodau'r Awdurdod gan yr Archwilwyr Annibynnol	Report to the Members of the Authority by the Independent Auditors
28	Cyfrif Elw a Chollod Cyfun	Consolidated Profit and Loss Account
30	Mantolen Gyfun	Consolidated Balance Sheet
32	Mantolen S4C	S4C Balance Sheet
34	Datganiad o Lif Arian Cyfun	Consolidated Cash Flow Statement
36	Nodiadau i'r Cyfrifon	Notes to the Accounts
64	Aelodau'r Awdurdod/ Tîm Gweithredol/ Golygyddion Cynnwys	Members of the Authority/ Executive Team/ Content Editors

Adroddiad yr Awdurdod Am y flwyddyn a derfynodd 31 Rhagfyr 2007

Rhagair

Cyflwynir Datganiad Ariannol yr Awdurdod am y flwyddyn a derfynodd 31 Rhagfyr 2007 yn unol ag Atodlen 1(1)(b) y Cyfarwyddyd Cyfrifon a ryddhawyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol i'r Awdurdod ym mis Mai 2007.

Prif weithgareddau

Mae S4C yn gweithredu o dan Adrannau 203 hyd 207 (cynwysedig) ac Atodlen 12 Deddf Cyfathrebiadau 2003. Mae Adran 204 yn darparu bod yr Awdurdod yn gweithredu i ddarparu gwasanaethau rhaglenni teledu o safon uchel gyda'r bwriad iddynt fod ar gael yn gyfan gwbl neu yn bennaf i'r cyhoedd yng Nghymru. Wrth gyflawni'r gweithgaredd, rhaid i'r Awdurdod barhau i ddarparu'r gwasanaeth darlledu teledu analog a adnabyddir fel Sianel Pedwar Cymru neu S4C (sydd yn bennaf yn darlledu rhaglenni Cymraeg ar y Bedwaredd Sianel yng Nghymru ac sydd yn darlledu rhaglenni Saesneg Channel 4 [yn gyfamserol neu wedi eu hailamserlennu] pan nad ydyw yn darlledu yn Gymraeg) ac y gall barhau i ddarlledu'r gwasanaeth digidol a adnabyddir fel S4C digidol. Mae'r Awdurdod hefyd yn parhau i ddarparu S4C2, sydd yn wasanaeth digidol, trwy gwmni S4C, sef S4C2 Cyf, dan y darpariaethau trawsnewidiol sydd ym mharagraff 27 (3) Atodlen 18 Deddf Cyfathrebiadau 2003.

Strwythur grŵp

Mae is-baragraffau (2) a (3) Paragraff 1 Atodlen 6 Deddf Darlledu 1990 (fel yr addaswyd gan Adran 206 (6) Deddf Cyfathrebiadau 2003) yn caniatáu i'r Awdurdod, i'r graddau ei bod yn ymddangos iddynt yn atodol neu'n arweiniol i'w gweithgaredd i wneud hynny, gymryd rhan mewn gweithgareddau, yn cynnwys gweithgareddau masnachol, trwy gwmnïau S4C gan ddefnyddio cyllid masnachol yn unig. Yn ogystal, mae'r darpariaethau trawsnewidiol ym mharagraff 27 Atodlen 18 Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn caniatáu i'r Awdurdod barhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau, yn cynnwys gweithgareddau masnachol, yr oeddent yn eu gwneud yn syth cyn dechreuad Adran 206, naill ai ei hunan neu trwy gwmni S4C. O fewn y Datganiad Ariannol cyfun hwn, cyfeirir at Gronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus fel S4C ac at gyfanswm y gwasanaeth cyhoeddus a gweithgareddau masnachol fel yr Awdurdod. Cyfeirir at yr asedau nad ydynt yng Nghronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus fel y Gronfa Gyffredinol.

Cyllid

Yn unol ag Adran 61 Deddf Darlledu 1990 (fel y dirprwywyd gan Adran 80 Deddf Darlledu 1996 a diweddarwyd gan Adran 207 (7) Deddf Cyfathrebiadau 2003), mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon yn darparu cyllid i S4C i'w galluogi i weithredu. Y swm a dderbynnir yw'r swm penodedig o'i gynyddu gan y canran priodol. Golyga'r 'swm penodedig' y swm a dalwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol i S4C ym 1997 yn unol ag Adran 61 Deddf Darlledu 1990. Mae'r 'canran priodol' mewn cysylltiad ag unrhyw flwyddyn yn golygu canran y cynnydd rhwng y mynegai pris manwerthu am fis Tachwedd 1996 a'r mynegai pris manwerthu am y mis Tachwedd cyn y flwyddyn berthnasol. Rhaid cadw'r arian hwn yng Nghronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus a rhaid ei ddefnyddio'n unig i gyflawni gwasanaethau cyhoeddus yr Awdurdod. Ni chaniateir cymhorthdal o Gronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus ar gyfer gweithgareddau masnachol.

Aelodau'r Awdurdod

Rhestrir aelodau'r Awdurdod a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn ar ddiwedd yr adroddiad. Ni fu gan neb o'r aelodau fudd mewn cytundebau gydag S4C. Rhoddir gwybodaeth sy'n cyfateb i'r gofynion datgelu ar gyfer cydnabyddiaeth i gyfarwyddwyr dan y Cyfarwyddyd Cyfrifon mewn perthynas â chydnabyddiaeth i'r aelodau yn nodyn 4 i'r Datganiad Ariannol.

Report of the Authority For the year ended 31 December 2007

Foreword

The Statement of Accounts of the Authority for the year ended 31 December 2007 is presented in accordance with Schedule 1(1)(b) of the Accounts Direction issued by the Secretary of State to the Authority in May 2007.

Principal activities

S4C operates under Sections 203 to 207 (inclusive) and Schedule 12 of the Communications Act 2003. Section 204 provides that the Authority shall have the function of providing television programme services of high quality with a view to their being available for reception wholly or mainly by members of the public in Wales. In carrying out that function, the Authority must continue to provide the analogue television broadcast service known as Sianel Pedwar Cymru or S4C (which broadcasts mainly Welsh language programmes on the Fourth Channel in Wales and broadcasts Channel 4 English language programmes [simultaneously or rescheduled] when not transmitting in Welsh) and may continue to broadcast the service provided in digital form known as S4C digital. The Authority also continues to provide S4C2, which is a digital service, through an S4C company, S4C2 Cyf, under the transitional provisions contained in paragraph 27 (3) of Schedule 18 to the Communications Act 2003.

Group structure

Sub-paragraphs (2) and (3) of Paragraph 1 of Schedule 6 to the Broadcasting Act 1990 (as amended by Section 206 (6) of the Communications Act 2003) entitles the Authority, to the extent that it appears to them incidental or conducive to the carrying out of their functions to do so, to carry out activities, including commercial activities, through S4C companies using commercial revenues only. Likewise, the transitional provisions contained in paragraph 27 of Schedule 18 to the Communications Act 2003 permit the Authority to continue carrying on any activities, including commercial activities, which were being carried on immediately before the commencement of Section 206, either itself or through an S4C company. Within this consolidated Statement of Accounts, the Public Service Fund is referred to as S4C and the total of both public service and commercial activities is referred to as the Authority. The assets of the Authority that are not comprised in the Public Service Fund are referred to as the General Fund.

Funding

Under Section 61 of the Broadcasting Act 1990 (as substituted by Section 80 of the Broadcasting Act 1996 and subsequently amended by Section 207 (7) of the Communications Act 2003), the Secretary of State for Culture, Media and Sport provides S4C with funds in order to carry out its activities. The amount received is the prescribed amount as increased by the appropriate percentage. The 'prescribed amount' means the amount paid by the Secretary of State to S4C in 1997 in accordance with Section 61 of the Broadcasting Act 1990. The 'appropriate percentage' in relation to any year means the percentage increase between the retail price index for November 1996 and the retail price index for the month of November preceding the relevant year. This funding must be held in the Public Service Fund and be applied only for the purposes of providing the Authority's public services. No subsidy is permitted from the Public Service Fund for commercial activities.

Authority Members

The members of the Authority who served during the year are listed at the end of the report. None of the members had an interest in contracts with S4C. Information as required under the Accounts Direction is given in respect of the members' remuneration in note 4 to the Statement of Accounts.

Incwm Cronfa'r gwasanaeth cyhoeddus a throsiant y Gronfa gyffredinol

Roedd y cyfanswm a dderbyniwyd oddi wrth yr Adran dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (ADCC) yn ystod y flwyddyn yn £94.395m (2006—£90.857m). Defnyddiwyd yr incwm hwn i gyllido costau comisiynu a phrynu rhaglenni Cymraeg, costau darlledu S4C, gwariant ar asedau sefydlog a gorbenion. Mae balans yr incwm, ar ôl cymryd i ystyriaeth gwariant ar ddarlledu rhaglenni a chostau gweithredu a gweinyddu, felly yn cynrychioli'r prif fodd o gyllido asedau net S4C ac yn cael ei drin fel incwm gohiriedig yng Nghronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus. Crëwyd trosiant y Gronfa Gyffredinol gan werthu amser hysbysebu, hawliau mewn rhaglenni teledu, nawdd, marsiantïo, cyhoeddi a gweithgareddau buddsoddi. Yn 2007, roedd y cyfanswm yn £5.509m (2006—£5.675m). Rhoddir manylion pellach yn nodyn 2 i'r Datganiad Ariannol.

Gwariant

Mae'r costau a roddwyd yn erbyn y cyfrif elw a cholled yn ystod y flwyddyn yn cynnwys £94.123m (2006—£89.965m) ar gyfer costau'r gwasanaeth rhaglenni a chostau darlledu a dosbarthu, £3.772m am gostau uniongyrchol eraill (2006—£3.821m) a £4.576m (2006—£4.500m) ar gyfer costau gweithredu a gweinyddu. Roedd costau'r rhaglenni a ddarlledwyd yn cynnwys £73.200m (2006—£68.880m) ar gyfer costau rhaglenni a gomisiynwyd neu a brynwyd gan gyflenwyr rhaglenni. Cyfeiria costau darlledu a dosbarthu at gostau trosglwyddyddion a llinellau cyfathrebu a ddarperir gan gontractwyr. Roedd y gweddill yn gostau uniongyrchol comisiynu a chyflwyno rhaglenni, costau rhedeg gwasanaeth teletestun ac is-deitlo S4C ynghyd â chostau darlledu perthnasol eraill y gwasanaeth darlledu megis costau marchnata a chostau ymchwil cynulleidfau.

Mae costau uniongyrchol eraill yn cynnwys rhaniad elw yn daladwy i drydydd partiön yn deillio o werthiant rhaglenni, comisiwn asiantaeth a chostau darlledu yn ymwneud â hysbysebion a chostau cludo yn ymwneud â S4C2 ar lwyfannau digidol, daearol a lloeren. Ceir manylion pellach am gostau gweithredu a gweinyddu yr Awdurdod yn nodyn 3 i'r Datganiad Ariannol.

Polisi talu

Mae'n bolisi gan yr Awdurdod i gytuno ar amodau a thelerau addas ar gyfer ei drafodion â chyflenwyr, ac yn amodol ar eu cydymffurfriad, gwneir taliadau yn unol â'r telerau hyn. Yn arferol ym 2007, talwyd 89% (2006—89%) o gyflenwyr cyn pen 30 diwrnod.

Public service fund income and General fund turnover

Amounts receivable from the Department for Culture, Media and Sport (DCMS) during the year totalled £94.395m (2006—£90.857m). This income was used to finance the cost of commissioning and acquiring Welsh language programmes, the transmission costs of S4C, expenditure on fixed assets and overheads. The balance of this income, after the cost of programme transmission and operational and administrative expenses, therefore represents the principal means of financing the net assets of S4C and is treated as deferred income in the Public Service Fund. General Fund turnover was generated by sales of airtime, rights in television programmes, sponsorship, merchandising, publishing and investment activities. It totalled £5.509m in 2007 (2006—£5.675m). Further details are given in note 2 to the Statement of Accounts.

Expenditure

Costs charged to the profit and loss account during the year include £94.123m (2006—£89.965m) for the cost of the programme service and transmission and distribution costs, £3.772m for other direct costs (2006—£3.821m) and £4.576m (2006—£4.500m) for operational and administrative expenses. The costs of programmes transmitted included £73.200m (2006—£68.880m) in respect of the cost of programmes commissioned or acquired from programme suppliers. Transmission and distribution costs are incurred in respect of transmitters and communication lines provided by contractors. The balance comprised the direct costs of programme commissioning and presentation, the operational costs of the teletext and subtitling service of S4C and other related costs of the programme service such as marketing costs and audience research.

Other direct costs include third party co-production funding advances, profit participation due to third parties in respect of programme sales, agency commission and playout costs relating to advertisements and carriage costs relating to S4C2 on the digital terrestrial and satellite platforms. Further details of the operational and administrative costs of the Authority are given in note 3 to the Statement of Accounts.

Payment policy

It is the Authority's policy to agree appropriate terms and conditions for its transactions with suppliers, and subject to their compliance, to make payments in accordance with these terms. Typically in 2007, 89% (2006—89%) of supplier balances were paid within 30 days.

Oriau a ddarledwyd a chyfartaledd cost yr awr

Yn ystod y flwyddyn darledodd S4C gyfanswm o 10,445 awr o raglenni (2006–10,479 awr), yn cynrychioli cyfartaledd o 200.9 awr yr wythnos (2006–201.5 awr). Mae dadansoddiad o'r oriau hyn rhwng rhaglenni Cymraeg a'u costau perthnasol a rhaglenni Saesneg fel a ganlyn:-

	Oriau	2007 Cost yr awr £	Oriau	2006 Cost yr awr £
Cymraeg				
Rhaglenni a gomisiynwyd				
Cynyrchiadau annibynnol	1,236	52,078	1,189	50,138
BBC	71	38,960	102	34,268
	1,307	51,365	1,291	48,884
Rhaglenni a brynwyd	126	10,405	125	10,155
Ailddarllediadau				
Cynyrchiadau annibynnol	2,320	1,172	2,242	1,126
BBC	265	7,682	267	7,417
	4,018	18,218	3,925	17,549
BBC—Oriau Statudol	626	-	587	-
	4,644		4,512	
Cyfartaledd yr wythnos	89.3		86.8	

Cafodd S4C yr oriau statudol a ddarparwyd gan y BBC, a oedd yn cynnwys rhai ailddarllediadau, dan Adran 58(1) Deddf Darlledu 1990 (fel yr addaswyd gan Adran 29 Deddf Darlledu 1996) a thalwyd amdanynt gan y BBC o incwm y drwydded. Mae cynyrchiadau annibynnol yn cynnwys rhaglenni a gomisiynwyd oddi wrth ITV.

Darledodd S4C 1,169 awr (2006–1,162 awr) o raglenni Cymraeg yn yr oriau brig rhwng 6.30 p.m. a 10.00 p.m. sydd yn rhoi cyfartaledd yr wythnos o 22.5 awr (2006–22.4 awr).

	2007 Oriau	2006 Oriau
Saesneg		
Rhaglenni gwreiddiol	3,523	3,765
Ailddarllediadau	2,278	2,202
	5,801	5,967
Cyfartaledd yr wythnos	111.6	114.8

Mae gan S4C yr hawl i ddarlledu rhaglenni Saesneg Channel 4 yn rhad ac am ddim yn ôl Adran 58(2) Deddf Darlledu 1990.

Hours transmitted and average cost per hour

The total hours of programmes transmitted by S4C during the year amounted to 10,445 (2006—10,479), representing an average per week of 200.9 hours (2006—201.5 hours). An analysis of these hours between Welsh language programmes and their related costs and English language programmes is as follows:-

	Hours	2007 Cost per hour £	Hours	2006 Cost per hour £
Welsh				
Commissioned programmes				
Independent production	1,236	52,078	1,189	50,138
BBC	71	38,960	102	34,268
	1,307	51,365	1,291	48,884
Acquired programmes	126	10,405	125	10,155
Repeats				
Independent production	2,320	1,172	2,242	1,126
BBC	265	7,682	267	7,417
	4,018	18,218	3,925	17,549
BBC—Statutory hours	626	-	587	-
	4,644		4,512	
Average per week	89.3		86.8	

The statutory hours supplied by the BBC, which included an element of repeat programmes, were provided to S4C under Section 58(1) of the Broadcasting Act 1990 (as amended by Section 29 of the Broadcasting Act 1996) and were funded out of the BBC's licence revenue. Independent production includes programmes commissioned from ITV.

1,169 hours (2006—1,162 hours) of Welsh language programmes were transmitted in the peak hours between 6.30 p.m. and 10.00 p.m. with a weekly average of 22.5 hours (2006—22.4 hours).

	2007 Hours	2006 Hours
English		
Original programming	3,523	3,765
Repeats	2,278	2,202
	5,801	5,967
Average per week	111.6	114.8

S4C has the right to transmit English language programmes provided by Channel 4 free of charge in accordance with Section 58(2) of the Broadcasting Act 1990.

Rhaglenni a ddarllledwyd yn ôl categori

Rhaglenni a gomisiynwyd

	2007		2006	
	Oriau	Cost yr awr £	Oriau	Cost yr awr £
Drama	84	193,923	90	180,619
Ffeithiol Cyffredinol	471	32,148	495	28,801
Materion Cyfoes	64	37,064	53	40,204
Cerdd Ysgafn/Adloniant	98	68,606	100	75,268
Plant	198	53,141	191	44,597
Cerddoriaeth a'r Celfyddydau	120	39,449	119	40,882
Chwaraeon	247	41,802	223	38,745
Crefydd	25	41,078	20	45,792
Cyfanswm	1,307	51,365	1,291	48,884

BBC a Channel 4

	2007		2006	
	BBC Oriau	C4 Oriau	BBC Oriau	C4 Oriau
Drama	107	691	97	852
Newyddion	174	124	199	124
Materion Cyfoes a Ffeithiol	80	1,054	60	1,141
Adloniant Ysgafn	19	1,034	13	1,007
Pobl Ifainc a Phlant	40	-	17	-
Cerddoriaeth a'r Celfyddydau	104	19	106	30
Addysg	21	59	23	84
Chwaraeon	80	521	72	500
Crefydd	1	21	-	27
Cyfanswm	626	3,523	587	3,765

Transmitted programmes by category

Commissioned programmes

	Hours	2007	Hours	2006
		Cost per hour £		Cost per hour £
Drama	84	193,923	90	180,619
General Factual	471	32,148	495	28,801
Current Affairs	64	37,064	53	40,204
Light Music/Entertainment	98	68,606	100	75,268
Children	198	53,141	191	44,597
Music and Arts	120	39,449	119	40,882
Sport	247	41,802	223	38,745
Religion	25	41,078	20	45,792
Total	1,307	51,365	1,291	48,884

BBC and Channel 4

	2007		2006	
	BBC Hours	C4 Hours	BBC Hours	C4 Hours
Drama	107	691	97	852
News	174	124	199	124
Current Affairs and Factual	80	1,054	60	1,141
Light Entertainment	19	1,034	13	1,007
Youth and Children	40	-	17	-
Music and Arts	104	19	106	30
Education	21	59	23	84
Sport	80	521	72	500
Religion	1	21	-	27
Total	626	3,523	587	3,765

Ymgyfraniad ac ymgynghoriad Aelodau Staff

Mae S4C yn trosglwyddo gwybodaeth i'w haelodau staff ac yn ymgynghori â nhw mewn nifer o ffyrdd, sydd yn adlewyrchu egwyddorion y wobwr Buddsoddwyr mewn Pobl:

- 1 trwy gyfarfodydd a gynhelir yn rheolaidd lle lledaenir gwybodaeth gan aelodau'r Tîm Gweithredol a lle caiff aelodau staff gyfle i fynegi eu barn;
- 2 trwy gyfarfodydd gydag aelodau staff lle mae'r Prif Weithredwr yn adrodd ar sut y mae pethau yn mynd yn eu blaen a chynlluniau i'r dyfodol. Anogir aelodau staff i ofyn cwestiynau;
- 3 trwy ledaenu system ebost a mewnrwyd o fewn y cwmni;
- 4 trwy gydfargeinio arferol gyda BECTU (yn achos gweithwyr technegol). Mae S4C hefyd yn cydnabod Equity (yn achos cyflwynwyr) a'r NUJ (yn achos staff Swyddfa'r Wasg).

Polisi cyflogi

Mae'r Awdurdod yn gyflogwr cyfle cyfartal. Nid yw'n caniatáu gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, cefndir ethnig neu gefndir economaidd gymdeithasol, oedran, sefyllfa deuluol, statws priodasol, gweithwyr rhan neu lawn amser, crefydd, gwleidyddiaeth, tueddfryd rhywiol, defnydd o iaith neu unrhyw wahaniaeth amherthnasol arall ac mae'n ymroddedig i ystyried amrywiaethau mewn modd positif. Defnyddir egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored ac mae penodiadau yn ddibynnol ar deilyngodod.

Rheolaeth Gorfforaethol

Mae'r Awdurdod yn ymrwymo i ddefnyddio'r egwyddorion rheolaeth corfforaethol uchaf sy'n gymesur â'i faint.

Cydymffurfiaeth

Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio drwy'r flwyddyn â darpariaethau'r Côd sydd wedi eu gosod yn Adran 1 y Côd Cyfunol cyn belled ag y maent yn gymwys i'r Awdurdod.

Defnyddio Egwyddorion

Mae'r Awdurdod wedi defnyddio'r egwyddorion rheolaeth dda a gynhwysir yn y Côd Cyfunol.

Yr Awdurdod

Fel awdurdod darlledu annibynnol, mae gan yr Awdurdod gyfrifoldeb llawn dros sicrhau bod swyddogaethau statudol S4C, mewn amgylchedd gwasanaeth cyhoeddus a masnachol, yn cael eu cyflawni'n unol â pholisïau'r Awdurdod a gofynion Deddfau Darlledu 1990 a 1996 a Deddf Cyfathrebiadau 2003.

Mae'r Awdurdod yn cynnwys y Cadeirydd ac wyth aelod, i gyd yn cael eu penodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon ar ôl ymgynghori â Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae ganddynt brofiad a gwybodaeth helaeth ac maent yn annibynnol o'r Tîm Gweithredol, ac o unrhyw berthynas fusnes neu berthynas arall a allai ymyrryd ag ymarfer eu barn annibynnol. Mae'r strwythur hwn yn sicrhau na all y broses o wneud penderfyniadau gan yr aelodau gael ei reoli gan unigolyn neu grŵp bychan. Cynhwysir manylion bywgraffyddol am aelodau'r Awdurdod yn yr Adroddiad Blynyddol, sydd yn cyd-fynd â'r ddogfen hon.

Employee involvement and consultation

There are a number of ways in which S4C informs and consults with its employees, which reflects the principles of the Investors in People award:

- 1 through regular meetings where information is disseminated by members of the Executive Team and employees have an opportunity to air their views;
- 2 through meetings with employees where the Chief Executive reports on progress and future plans and members of staff are encouraged to ask questions;
- 3 through use of the company-wide email and intranet systems;
- 4 through normal collective bargaining with BECTU (for technical employees). S4C also recognises Equity (for continuity announcers) and the NUJ (for Press Office staff).

Employment policy

The Authority is an equal opportunities employer. It does not tolerate discrimination on the grounds of gender, race, colour, disability, ethnic or socio-economic background, age, family circumstances, marital status, part time or full time workers, religion, political persuasion, sexual orientation, use of language or other irrelevant distinction and is committed to work with diversity in a positive way. The principles of fair and open competition will apply and appointments will be made on merit.

Corporate Governance

The Authority is committed to applying the highest principles of corporate governance commensurate with its size.

Compliance

The Authority has complied throughout the year with the Code provisions set out in Section 1 of the Combined Code so far as they are applicable to the Authority.

Application of Principles

The Authority has applied the principles of good governance contained in the Combined Code.

The Authority

As an independent broadcasting authority, the Authority has full responsibility for ensuring that, in a public service and commercial environment, the statutory functions of S4C are discharged in accordance with the Authority's policies and the requirements of the Broadcasting Acts 1990 and 1996 and the Communications Act 2003.

The Authority comprises the Chair and eight members, all of whom are appointed by the Secretary of State for Culture, Media and Sport following consultation with the Welsh Assembly Government. They bring a breadth of experience and knowledge and are independent of the Executive Team and of any business or other relationship which could interfere with the exercise of their independent judgement. This structure ensures that the members' decision making cannot be dominated by an individual or small group. The biographical details of the Authority members are included in the Annual Report, which accompanies this document.

Mae'r Awdurdod yn cyfarfod yn ffurfiol trwy gydol y flwyddyn, a hynny'n fisol fel arfer ac mae ganddo ystod o faterion sydd wedi eu neilltuo iddo am benderfyniad ynghyd â rhaglen waith lawn i'w galluogi i adolygu perfformiad S4C ac i gymryd penderfyniadau strategol ar adegau priodol o fewn y cyfnod cynllunio corfforaethol. Ym mhob un o gyfarfodydd yr Awdurdod fel arfer bydd y Prif Weithredwr, yr Ysgrifennydd i'r Awdurdod, y Cyfarwyddwr Comisiynu a'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Dynol yn bresennol. Bydd y Tîm Gweithredol yn rhoi i aelodau'r Awdurdod wybodaeth briodol ac amserol ac mae rhyddid i'r aelodau ofyn am unrhyw wybodaeth bellach y credant ei bod yn angenrheidiol. Gall yr aelodau i gyd ofyn am gyngor gan Ysgrifennydd yr Awdurdod a gweithwyr proffesiynol annibynnol ar draul S4C. Darperir hyfforddiant ar gyfer aelodau newydd yn ôl yr angen. Ceir cofrestr yn nodi diddordebau'r aelodau ar wefan S4C, s4c.co.uk. Gellir gweld copïau yn swyddfeydd S4C yng Nghaerdydd a Chaernarfon. Mae'r Awdurdod wedi sefydlu'r pwyllgorau canlynol i'w helpu i gyflawni ei ddyletswyddau:

Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg
Pwyllgor Personél a Chydnabyddiaeth
Pwyllgor Cwynion
Pwyllgor Cynnwys

Cyhoeddir bwletin o'i drafodaethau a'i benderfyniadau yn dilyn pob cyfarfod a chynhelir cyfarfodydd cyhoeddus agored yn aml mewn gwahanol rannau o Gymru.

Y Prif Weithredwr a'r Tîm Gweithredol

Gydag arolygon cyfnodol ac yn unol â chyfrifoldeb cyffredinol yr Awdurdod, mae'r cyfrifoldeb dros ffurfio a gweithredu polisi manwl, yn unol â chylch gwaith a pholisi rhaglenni S4C a chynnal busnes S4C, wedi ei ddirprwyo i'r Prif Weithredwr a thrwyddi hi i'r Tîm Gweithredol. Y Prif Weithredwr a'r Tîm Gweithredol sy'n gyfrifol am sicrhau bod busnes S4C yn cael ei gynnal yn unol â pholisïau a threfniadau gweithredu sydd wedi eu cymeradwyo gan yr Awdurdod.

Mae'r Prif Weithredwr wedi ei phenodi gan yr Adran dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon yn swyddog cyfrifo ar gyfer ariannu statudol S4C a hi felly sy'n gyfrifol am sicrhau defnydd iawn o'r arian a delir i S4C gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Pwyllgor Cyllideb

Mae'r Pwyllgor Cyllideb yn cynnwys y Prif Weithredwr a'r Tîm Gweithredol. Diben y Pwyllgor Cyllideb yw trafod yn fanwl gyllideb ddrafft blynyddol S4C ac argymhell drafft terfynol y gyllideb i'r Awdurdod ei gymeradwyo. Caiff cyllideb S4C ar gyfer pob blwyddyn ariannol (ac unrhyw ddiwygiadau wedyn) ei chymeradwyo gan yr Awdurdod.

The Authority meets formally throughout the year, normally monthly and has a schedule of matters specifically reserved to it for decision, and a full work programme to enable it to monitor the performance of S4C and take strategic decisions at appropriate points in the corporate planning cycle. All meetings of the Authority are usually attended by the Chief Executive, the Secretary to the Authority, the Director of Commissioning and the Director of Finance and Human Resources. The Executive Team supplies the Authority members with appropriate and timely information and the members are free to seek any further information they consider necessary. All members have access to advice from the Secretary to the Authority and independent professionals at the expense of S4C. Training is available for new members as necessary. A register stating the members' interests appears on S4C's website, s4c.co.uk. Copies are available for inspection at the offices of S4C in Cardiff and Caernarfon. The Authority has established the following committees to help it in the discharge of its responsibilities:

Audit and Risk Management Committee
Personnel and Remuneration Committee
Complaints Committee
Content Committee

It publishes a bulletin of its discussions and decisions following each of its meetings and holds frequent open public meetings in different parts of Wales.

The Chief Executive and the Executive Team

Subject to periodic review and to the overall responsibility of the Authority, responsibility for the formulation and operation of detailed policy, in accordance with the S4C remit and programme policy and the conduct of the affairs of S4C, has been delegated to the Chief Executive and through her to the Executive Team. The Chief Executive and the Executive Team are responsible for ensuring that the affairs of S4C are conducted in accordance with policies and operating procedures approved by the Authority.

The Chief Executive has been appointed by the Department for Culture, Media and Sport as the accounting officer in respect of the statutory funding of S4C and, as such, is the person responsible for the proper use of funds paid to S4C by the Secretary of State.

Budget Committee

The Budget Committee comprises the Chief Executive and the Executive Team. Its purpose is to discuss in detail the draft annual budget of S4C and to recommend a final draft budget to the Authority for approval. The budget of S4C for each financial year (and any subsequent amendments) is approved by the Authority.

Caiff cydnabyddiaeth a chyfnod apwyntiad y Cadeirydd ac aelodau'r Awdurdod eu pennu ym mhob achos gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon.

Penderfynir cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr a'r Ysgrifennydd i'r Awdurdod gan yr Awdurdod. Mae cydnabyddiaeth y Tîm Gweithredol yn cael ei benderfynu gan y Prif Weithredwr o fewn fframwaith a gytunwyd gan Bwyllgor Personél a Chydnabyddiaeth yr Awdurdod. Yn ystod y flwyddyn aelodaeth y Pwyllgor Personél a Chydnabyddiaeth oedd Bill Davies, Roger Jones, John Walter Jones, Chris Llewelyn, Cenwyn Edwards ac Enid Thomas, sydd i gyd yn aelodau anweithredol annibynnol.

Caiff cyflogau aelodau staff eraill eu pennu gan y Prif Weithredwr a'r Tîm Gweithredol o fewn y gyllideb flynyddol sy'n cael ei chymeradwyo gan yr Awdurdod. Bydd Panel Cyflogau, sy'n cynnwys y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Dynol, y Cyfarwyddwr Materion Busnes a'r Pennaeth Adnoddau Dynol yn adolygu cyflogau'r rhai nad ydynt yn aelodau o'r Tîm Gweithredol ac yn argymhell codiadau i unigolion yn ôl haeddiant neu gyfraddau'r farchnad. Caiff cyflogau aelodau staff sydd yn gweithio i is-yngymeriadau S4C eu pennu gan Bwyllgor Cydnabyddiaeth S4C Masnachol a'u cymeradwyo gan Fwrdd S4C Masnachol Cyf gyda Phrif Weithredwr S4C, y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Dynol ac aelod anweithredol o'r cwmni hwnnw yn aelodau ohono.

Caiff codiadau cyffredinol yng nghyflogau aelodau staff i gyd eu pennu gan yr Awdurdod ar argymhelliad y Prif Weithredwr a'r Tîm Gweithredol. Ar 1 Ionawr 2007, cymeradwyodd yr Awdurdod godiad cyffredinol o 3.9% yng nghyflogau pob un o aelodau staff.

Mae'r Awdurdod yn cyflwyno asesiad cytbwys o sefyllfa a rhagolygon S4C yn yr wybodaeth y mae'n ofynnol iddo ei chyflwyno yn ôl gofynion statudol.

Aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg yn ystod y flwyddyn oedd Rheon Tomos (Cadeirydd), Cenwyn Edwards a Roger Jones, sydd i gyd yn aelodau anweithredol annibynnol.

Mae cylch gwaith y Pwyllgor yn cynnwys cadw golwg ar gwmpas a chanlyniadau'r archwiliadau allanol a mewnol a'u heffeithiolrwydd o ran cost.

Bydd y Pwyllgor yn sicrhau annibyniaeth yr archwilwyr mewnol ac yn arolygu annibyniaeth a gwrthrychedd yr archwilwyr allanol. Mae hyn yn cynnwys arolygu natur a graddfa gwasanaethau an-archwiliol a ddarperir gan yr archwilwyr allanol i'r Awdurdod, gan geisio sicrhau cydbwysedd o ran gwrthrychedd a gwerth am arian.

Bydd Cadeirydd yr Awdurdod, y Prif Weithredwr, yr Ysgrifennydd i'r Awdurdod a'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Dynol yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg fel arfer. Gall aelodau eraill o'r Awdurdod hefyd fynychu'r cyfarfodydd hyn.

Remuneration

The remuneration and term of appointment of the Chair and the members of the Authority is determined in each case by the Secretary of State for Culture, Media and Sport.

The remuneration of the Chief Executive and the Secretary to the Authority is determined by the Authority. The remuneration of the Executive Team is determined by the Chief Executive within a framework agreed by the Personnel and Remuneration Committee of the Authority. Members of the Personnel and Remuneration Committee during the year were Bill Davies, Roger Jones, John Walter Jones, Chris Llewelyn, Cenwyn Edwards and Enid Thomas. All are independent non-executive members.

The salaries of other members of staff are determined by the Chief Executive and the Executive Team within the annual budget approved by the Authority. A Salaries Panel, comprising the Director of Finance and Human Resources, the Director of Business Affairs and the Head of Human Resources reviews non-Management salaries, and recommends merit or market rate increases for individuals. The salaries of members of staff employed in the work of the subsidiary undertakings of S4C are determined by the Remuneration Committee of S4C Masnachol and approved by the Board of S4C Masnachol Cyf, on which the S4C Chief Executive, the Director of Finance and Human Resources and a non-executive director of that company sit.

General salary increases for all members of staff are determined by the Authority on the recommendation of the Chief Executive and the Executive Team. On 1 January 2007, the Authority approved a general salary increase of 3.9% for all members of staff.

Accountability and Audit

The Authority presents a balanced assessment of S4C's position and prospects in the information required to be presented by statutory requirements.

Members of the Audit and Risk Management Committee of the Authority during the year comprised Rheon Tomos (Chair), Cenwyn Edwards and Roger Jones. All are independent non-executive members.

The terms of reference of the Committee include keeping under review the scope and results of both the internal and external audits and their cost effectiveness.

The Committee ensures the independence of the internal auditors and reviews the independence and objectivity of the external auditors. This includes reviewing the nature and extent of non-audit services supplied by the external auditors to the Authority, seeking to balance objectivity and value for money.

The Chair of the Authority, the Chief Executive, the Secretary to the Authority and the Director of Finance and Human Resources normally attend meetings of the Audit and Risk Management Committee. Other Authority members may also attend these meetings.

Rheolaeth fewnol

Yr Awdurdod sy'n gyfrifol yn y pen draw am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol i ddiogelu asedau S4C ac adolygu'i heffeithiolrwydd. Bwriedir system o'r fath i reoli yn hytrach na dileu'r perygl o fethiant i gyflawni amcanion busnes. Mae cyfyngiadau cynhenid mewn unrhyw system reoli, a chan hynny dim ond sicrwydd rhesymol ac nid sicrwydd llwyr y gall hyd yn oed y systemau mwyaf effeithiol ei ddarparu yn erbyn camddatganiad neu golled sylweddol.

Yn sgîl cyhoeddi arweiniad i gyfarwyddwyr ar reolaeth fewnol, Rheolaeth Fewnol; Arweiniad i Gyfarwyddwyr ar y Côd Cyfun (arweiniad Turnbull), mae'r Awdurdod yn cadarnhau bod yna broses barhaus ar gyfer adnabod, gwerthuso a rheoli'r risgiau sylweddol a wynebwr gan y grŵp, sydd wedi bod yn ei lle ar gyfer y flwyddyn dan sylw a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Datganiad Ariannol, a bod y broses hon yn cael ei harolygu'n gyson gan yr Awdurdod a'i bod yn cydymffurfio â'r arweiniad.

Elfennau allweddol y system reolaeth fewnol yw:

Amgylchedd rheoli

Mae'r Awdurdod, yn gweithredu drwy'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg, wedi rhoi strwythur trefniadol ar waith sy'n diffinio cyfrifoldebau clir dros reolaeth fewnol.

Mae yna system adroddiadau rheolaeth gynhwysfawr sy'n cynnwys paratoi cyllidebau blynyddol gan bob canolfan gost. Caiff y cyllidebau hyn eu cadarnhau wedyn gan yr Awdurdod fel rhan o'r gyllideb gyffredinol am y flwyddyn. Caiff canlyniadau'r canolfannau cost eu hadrodd yn fisol a'u cymharu â'r gyllideb. Archwilir amrywiadau sylweddol o'r gyllideb fel sy'n briodol. Paratoir rhagolygon o ymrwymadau yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn.

Trefnweithiau rheolaeth

Mae'r trefnweithiau ar gyfer gweithrediadau wedi'u dogfennu yn y Trefnweithiau Rheolaeth Fewnol. Mae goblygiadau newidiadau yn y gyfraith a rheoliadau'n cael eu hystyried yn y trefnweithiau hyn.

Mae pob canolfan cost yn cynnal rheolaeth ariannol a threfnweithiau cymwys i'w hamgylchedd busnes ei hunan sy'n cydymffurfio gyda'r safonau a'r canllawiau a gymeradwywyd gan yr Awdurdod.

Internal control

The Authority is responsible for maintaining a sound system of internal control to safeguard the assets of S4C and for reviewing its effectiveness. Such a system is designed to manage, but not eliminate the risk of failure to achieve business objectives. There are inherent limitations in any control system and accordingly even the most effective systems can provide only reasonable and not absolute assurance against material misstatement or loss.

Following publication of guidance for directors on internal control, Internal Control; Guidance for Directors on the Combined Code (the Turnbull guidance), the Authority confirms that there is an ongoing process for identifying, evaluating and managing the significant risks faced by the group, that has been in place for the year under review and up to the date of approval of the Statement of Accounts, and that this process is regularly reviewed by the Authority and accords with the guidance.

The key features of the system of internal control are as follows:

Control environment

The Authority, acting through the Audit and Risk Management Committee, has put in place an organisational structure with clearly defined responsibilities for internal control.

There is a comprehensive management reporting system which involves the preparation of annual budgets by all cost centres. These budgets are then approved by the Authority as part of the overall budget for the year. The results of the cost centres are reported monthly and compared to the budget. Significant variances from budget are investigated as appropriate. Forecasts of commitments are prepared regularly throughout the year.

Control procedures

Operational procedures are documented in the Internal Control Procedures Manual. The implications of changes in law and regulations are taken into account within these procedures.

Each cost centre maintains financial controls and procedures appropriate to its own business environment conforming to the standards and guidelines approved by the Authority.

Y broses fonitro

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg yn derbyn ac yn ystyried adroddiadau ar y system o reolaeth ariannol fewnol oddi wrth y rheolwyr a'r swyddogaeth archwiliad mewnl.

Mae'r Awdurdod yn cadarnhau iddo gynnal adolygiad o effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol S4C ar gyfer y flwyddyn ariannol a hyd at ddyddiad yr adroddiad hwn, yn unol â'r arweiniad a nodir yn Rheolaeth Fewnol; Arweiniad i Gyfarwyddwyr ar y Côd Cyfun (arweiniad Turnbull).

Yn benodol, mae wedi arolygu'r prosesau newydd sydd wedi'u sefydlu ar gyfer adnabod a gwerthuso'r risgiau sylweddol sy'n effeithio ar y busnes ac wedi cytuno protocol ar gyfer monitro'r polisïau a'r drefn a ddefnyddir i reoli'r risgiau hyn yn y dyfodol. Mae hyn wedi'i atgyfnerthu drwy fabwysiadu dulliau sydd yn arwain staff yn eu hymddygiad busnes, gan gynnwys y Trefnweithiau Rheolaeth Fewnol a'r llawlyfr staff, a gymeradwywyd gan yr Awdurdod, sy'n darparu arweiniad ymarferol i'r holl staff. Mae hefyd bolisïau grŵp a threfn cyflogedigion ar gyfer adrodd ar a datrys unrhyw weithgareddau twyllodrus a amheuir.

Mae'r Tîm Gweithredol yn gyfrifol am adnabod a gwerthuso'r risgiau sylweddol sy'n berthnasol i'w meysydd busnes, ynghyd â chynllunio a gweithredu rheolaeth fewnol briodol. Asesir y risgiau hyn ar sail barhaus a gallant fod yn gysylltiedig ag amrywiaeth o ffynonellau mewnl ac allanol gan gynnwys toriadau mewn goruchwyliaeth, amhariad ar y systemau gwybodaeth, cystadleuaeth, trychinebau naturiol a gofynion rheoleiddio.

Cynhaliwyd swyddogaeth archwilio mewnl drwy gydol y flwyddyn i ddarparu sicrwydd i'r Awdurdod ynglŷn â gweithrediad a dilysrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae gweithrediadau cywiro arfaethedig yn cael eu monitro'n annibynnol gan y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg i sicrhau bod y gwaith yn cael ei gwblhau mewn da bryd. Mae archwilwyr mewnl yn arolygu'n annibynnol y broses reoli a weithredir gan y rheolwyr gan adrodd i'r swyddog cyfrifo a'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg yn arolygu'r drefn sicrwydd, gan wneud yn siŵr bod cymysgfa briodol o dechnegau'n cael eu defnyddio i gael y lefel sicrwydd y gofynnir amdani gan yr Awdurdod. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg yn cyflwyno'i gasgliadau i'r Awdurdod.

Mae'r Prif Weithredwr hefyd yn adrodd i'r Awdurdod ar ran y Tîm Gweithredol ar newidiadau sylweddol yn y busnes a'r amgylchedd allanol sy'n effeithio ar risgiau sylweddol. Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Dynol yn cyflwyno gwybodaeth ariannol yn chwarterol i'r Awdurdod sy'n cynnwys y prif arwyddion ynglŷn â pherfformiad a risg. Pan nodir lle y gellid gwella'r system, mae'r Awdurdod yn ystyried yr argymhellion a wnaethpwyd gan y Tîm Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg yn arolygu'r broses rheoli risg ac yn ystyried:

awdurdod, adnoddau a chydlynid pawb sydd ynghlwm wrth y gwaith o ddynodi, asesu a rheoli risgiau sylweddol a wynebwr gan yr Awdurdod;

yr ymateb i'r risgiau sylweddol a ddynodwyd gan y rheolwyr ac eraill;

y gwaith monitro ar yr adroddiadau a dderbyniwyd gan y rheolwyr;

y gofal am amgylchedd rheoli sy'n anelu at gadw rheolaeth briodol ar risg;

y gweithdrefnau adrodd blynyddol.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg hefyd yn cadw cysylltiad â'r holl newidiadau a wnaed i'r system ac yn cadw golwg ar agweddau y mae angen eu gwella. Cyflwyna adroddiadau ar y cyfryw bethau i'r Awdurdod.

Monitoring process

The Audit and Risk Management Committee receives and considers reports on the system of internal financial control from management and the internal audit function.

The Authority confirms that it has conducted a review of the effectiveness of the system of internal controls of S4C for the financial year and up to the date of this report in accordance with the guidance set out in Internal Control; Guidance for Directors on the Combined Code (the Turnbull guidance).

In particular, it has reviewed the newly established processes in place for identifying and evaluating the significant risks affecting the business and the has agreed the protocol for future monitoring of policies and procedures by which these risks are managed. This has been reinforced by the adoption of various procedures which guide staff on their business conduct, including the Internal Control Procedures Manual and the staff handbook, approved by the Authority, which provide practical guidance for all staff. There are also supporting group policies and employee procedures for the reporting and resolution of suspected fraudulent activities.

The Executive Team is responsible for the identification and evaluation of significant risks applicable to their areas of business, together with the design and operation of suitable internal controls. These risks are assessed on a continuous basis and may be associated with a variety of internal or external sources including control breakdowns, disruption in information systems, competition, natural catastrophe and regulatory requirements.

An internal audit function has been maintained throughout the year to provide assurance to the Authority as to the operation and validity of the system of internal control. Planned corrective actions are independently monitored by the Audit and Risk Management Committee for timely completion. Internal auditors independently review the control process implemented by management and report to the accounting officer and the Audit and Risk Management Committee. The Audit and Risk Management Committee reviews the assurance procedures, ensuring that an appropriate mix of techniques is used to obtain the level of assurance required by the Authority. The Audit and Risk Management Committee presents its findings to the Authority.

The Chief Executive also reports to the Authority on behalf of the Executive Team on significant changes in the business and the external environment which affect significant risks. The Director of Finance and Human Resources provides the Authority with quarterly financial information which includes key performance and risk indicators. Where areas for improvement in the system are identified, the Authority considers the recommendations made by the Executive Team and the Audit and Risk Management Committee.

The Audit and Risk Management Committee reviews the risk management and control process and considers :

the authority, resources and co-ordination of those involved in the identification, assessment and management of significant risks faced by the Authority;

the response to the significant risks which have been identified by management and others;

the monitoring of the reports from management;

the maintenance of a control environment directed towards the proper management of risk; the annual reporting procedures.

Additionally, the Audit and Risk Management Committee keeps abreast of all changes made to the system and follows up on areas which require improvement. It reports such matters to the Authority.

Busnes Byw

Ar ôl cynnal ymholiadau, ac o ran y darpariaethau cyllido yn Adran 61 Deddf Darlledu 1990 (fel y dirprwywyd gan Adran 80 Deddf Darlledu 1996 a diweddarwyd gan Adran 207(7) Deddf Cyfathrebiadau 2003), mae gan yr Awdurdod ddisgwyliadau rhesymol fod gan S4C adnoddau digonol i ddal ati i weithredu hyd y gellir rhagweld. Am y rheswm hwnnw, mae'n parhau i baratoi Datganiad Ariannol ar sail bod yn fusnes byw.

Datganiad Cyfrifoldebau— Paratoi Datganiadau Cyllidol

a Mae'n ofyniad hanfodol o dan gyfraith cwmnïau'r Deyrnas Unedig i gyfarwyddwyr sicrhau bod datganiadau ariannol am bob blwyddyn ariannol yn cael eu paratoi gan roi darlun gwir a theg o sefyllfa eu cwmni ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ac o'r elw neu golled am y cyfnod hwnnw.

b At hynny, mae'n ofynnol i gyfarwyddwyr:

fabwysiadu polisiâu cyfrifon addas a'u defnyddio'n gyson; lunio arfarniadau a gwneud amcangyfrifon yn rhesymol ac yn ddoeth;

gydymffurfio â safonau cyfrifo sy'n gymwys; baratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes sy'n fyw oni bai ei bod yn anaddas i gymryd bod y cwmni am barhau mewn busnes.

c Mae cyfarwyddwyr hefyd yn gyfrifol am:

sicrhau bod cofnodion cyfrifo digonol yn cael eu cadw i ddiogelu asedau'r cwmni; gymryd camau rhesymol i atal ac i ddarganfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

Cyn belled â bod y cyfarwyddwyr yn ymwybodol:

nid oes unrhyw wybodaeth berthnasol nad yw archwilwyr y grŵp yn ymwybodol; ac mae'r cyfarwyddwyr wedi cymryd pob cam y dylent fod wedi ei gymryd er mwyn gwneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwiliadol berthnasol ac i sefydlu fod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth yna.

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gynhaliadau a chywirdeb yr wybodaeth gorfforaethol ac ariannol sydd wedi ei chynnwys ar wefan y cwmni. Gall deddfwriaeth y Deyrnas Gyfunol sydd yn rheoli paratoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Yn achos S4C, mae'r cyfrifoldeb am baratoi Datganiad Ariannol yn disgyn ar yr Awdurdod fel corff statudol o dan Ddeddf Darlledu 1990 Atodlen 6 paragraffau 12 a 13 (fel yr addaswyd gan Adran 81 Deddf Darlledu 1996, Deddf Cwmnïau 1989 (Cymhwyster ar gyfer Apwyntiad i fod yn Archwiliwr Cwmni) (Diwygiadau Canlyniadol) Rheoliadau 1991 a pharagraff 71 rhan 1 Atodlen 15 Deddf Cyfathrebiadau 2003).

Mae'r Prif Weithredwr, yn rhinwedd ei swyddogaeth fel swyddog cyfrifo, yn gyfrifol am sicrhau bod y Datganiad Ariannol yn cael ei baratoi, ac am weithredu'r camau rheoli.

Mae'r Awdurdod yn cadarnhau bod Datganiad Ariannol S4C yn cydymffurfio â'r holl ofynion priodol. Mae'r Awdurdod yn ystyried ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau ym mhob un o'r agweddau uchod.

Archwilwyr

Mae Grant Thornton UK LLP, sydd yn cynnig eu hunain fel archwilwyr yn unol ag Adran 56 (3) a pharagraffau 12(2) a (3) Atodlen 6 Deddf Darlledu 1990 (fel yr addaswyd), wedi mynegi eu parodrwydd i barhau yn y swydd. Ceir eu hadroddiad ar y Datganiad Ariannol a Rheolaeth Gorfforaethol ar dudalennau 24 ac 25.

Ar orchymyn yr Awdurdod

Iona Jones
Prif Weithredwr
11 Mehefin 2008

Going Concern

After making enquiries and having regard to the funding provisions contained in Section 61 of the Broadcasting Act 1990 (as substituted by Section 80 of the Broadcasting Act 1996 and subsequently amended by Section 207(7) of the Communications Act 2003), the Authority has a reasonable expectation that S4C has adequate resources to continue in operational existence for the foreseeable future. For this reason, it continues to adopt the going concern basis in preparing the Statement of Accounts.

Statement of Responsibilities— Preparation of Financial Statements

a There is an overriding requirement under United Kingdom company law for directors to ensure that financial statements are prepared for each financial year which give a true and fair view of the state of affairs of their company as at the end of the financial year and of the profit or loss for that period.

b In addition, directors are required:

to adopt appropriate accounting policies and apply them consistently;

to make judgements and estimates reasonably and prudently;

to comply with applicable accounting standards;

to prepare the financial statements on a going concern basis unless it is inappropriate to assume that the company will continue in business.

c It is the responsibility of directors to:

ensure that adequate accounting records are maintained to safeguard the assets of the company;

take reasonable steps to prevent and detect fraud and other irregularities.

In so far as the directors are aware:

there is no relevant audit information of which the group's auditors are unaware; and the directors have taken all steps that they ought to have taken to make themselves aware of any relevant audit information and to establish that the auditors are aware of that information.

The directors are responsible for the maintenance and integrity of the corporate and financial information included on the company's website. Legislation in the United Kingdom governing the preparation and dissemination of financial statements may differ from legislation in other jurisdictions.

In the case of S4C, responsibility for the preparation of a Statement of Accounts is placed on the Authority as a statutory body by the Broadcasting Act 1990 Schedule 6 paragraphs 12 and 13 (as amended by Section 81 of the Broadcasting Act 1996, the Companies Act 1989 (Eligibility for Appointment as Company Auditor) (Consequential Amendments) Regulations 1991 and paragraph 71 part 1 of Schedule 15 to the Communications Act 2003).

The Chief Executive, as accounting officer, has responsibility for ensuring that the Statement of Accounts is prepared and for the implementation of controls.

The Authority confirms that S4C's Statement of Accounts complies with all appropriate requirements. The Authority considers that it is discharging its responsibilities in all the above respects.

Auditors

Grant Thornton UK LLP, who offer themselves for reappointment in accordance with Section 56 (3) and paragraphs 12(2) and (3) of Schedule 6 to the Broadcasting Act 1990 (as amended), have expressed their willingness to continue in office. Their report on the Statement of Accounts and Corporate Governance is given on pages 24 and 25.

By order of the Authority

Iona Jones
Chief Executive
11 June 2008

Datganiad i Aelodau'r Awdurdod gan yr Archwilwyr Annibynnol A benodwyd dan adran 56 (3) a pharagraffau 12 (2) a (3) atodlen 6 Deddf Darlledu 1990 fel yr addaswyd

Rydym wedi archwilio'r Datganiad Ariannol am y flwyddyn a derfynodd 31 Rhagfyr 2007 sy'n cynnwys y prif bolisiau cyfrifo, y cyfrif elw a cholled cyfun, y fantolen gyfun, mantolen S4C, y datganiad lliw arian cyfun, y datganiad cyfanswm yr enillion a cholledion cydnabyddedig cyfun a nodiadau 1 i 22. Mae'r Datganiad Ariannol wedi'i baratoi yn ôl y polisiau cyfrifo a nodir ynddo.

Cyflwynir yr adroddiad hwn i aelodau'r Awdurdod yn unig, fel corff, yn unol â pharagraff 13 (2) Atodlen 6 Deddf Darlledu 1990 (fel yr addaswyd). Mae ein gwaith archwilio wedi'i wneud fel bod modd i ni ddatgan wrth aelodau'r Awdurdod y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan wrthynt mewn adroddiad archwiliwr ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau mwyaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio'r Awdurdod ac aelodau'r Awdurdod fel corff, am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y barnau a luniwyd gennym.

Cyfrifoldebau perthnasol aelodau'r Awdurdod a'r archwilwyr

Cyflwynir cyfrifoldebau aelodau'r Awdurdod am baratoi'r Adroddiad Blynnyddol a'r Datganiad Ariannol yn unol â Chyfraith y Deyrnas Unedig a safonau cyfrifo (Arferion Cyfrifo sy'n dderbyniol yn gyffredinol yn y Deyrnas Unedig) yn y datganiad o gyfrifoldebau aelodau'r Awdurdod.

Ein cyfrifoldeb yw archwilio'r Datganiad Ariannol yn unol â gofynion perthnasol cyfreithiol a rheoleiddiol a Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon).

Cyflwynwn i chi ein barn a yw'r Datganiad Ariannol yn rhoi darlun gwir a theg ac a ydyw wedi'i baratoi'n briodol yn unol â Deddf Darlledu 1990 (fel yr addaswyd) a Chyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol ar Gyfrifon. Cyflwynwn adroddiad i chi hefyd os nad yw Adroddiad yr Awdurdod, yn ein barn ni, yn gyson â'r Datganiad Ariannol.

Yn ogystal, adroddwn i chi a ydym o'r farn bod yr Awdurdod wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol, os nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth a phob eglurhad sydd ei eisiau arnom ar gyfer ein harchwiliad, neu os na ddatgelwyd gwybodaeth a bennir gan y gyfraith ynglŷn â chydabyddiaeth a thrafodion eraill aelodau'r Awdurdod.

Rydym yn arolygu a yw'r datganiad ar Reolaeth Gorfforaethol yn adlewyrchu cydymffurfiant yr Awdurdod â saith darpariaeth y Côd Cyfunol a chyflwynwn adroddiad os nad yw. Nid yw'n ofynnol i ni ystyried a yw datganiadau'r Awdurdod ar reolaeth fewnol yn cynnwys pob risg a rheolaeth, nac i lunio barn am effeithiolrwydd trefniadau rheolaeth corfforaethol yr Awdurdod na'i ddulliau risg a rheoli.

Byddwn yn darllen gwybodaeth arall a roir yn yr Adroddiad Blynnyddol ac yn ystyried a yw'n gyson â'r Datganiad Ariannol sydd wedi'i archwilio. Mae'r wybodaeth arall hon dim ond yn cynnwys Adroddiad y Prif Weithredwr, Datganiad y Cadeirydd a'r Datganiad Rheolaeth Corfforaethol. Ystyriwn yr oblygiadau i'n hadroddiad os byddwn yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau amlwg neu anghysonderau o bwys o'r Datganiad Ariannol. Nid yw ein cyfrifoldebau yn ymestyn i unrhyw wybodaeth arall.

Report to the Members of the Authority by the Independent Auditors Appointed under section 56 (3) and paragraphs 12 (2) and (3) of Schedule 6 to the Broadcasting Act 1990 as amended.

We have audited the Statement of Accounts for the year ended 31 December 2007 which comprise the principal accounting policies, the consolidated profit and loss account, the consolidated balance sheet, the S4C balance sheet, the consolidated cash flow statement, the consolidated statement of total recognised gains and losses and notes 1 to 22. The Statement of Accounts has been prepared under the accounting policies set out therein.

This report is made solely to the Authority's members, as a body, in accordance with paragraph 13 (2) of Schedule 6 to the Broadcasting Act 1990 (as amended). Our audit work has been undertaken so that we might state to the Authority's members those matters we are required to state to them in an auditor's report and for no other purpose. To the fullest extent permitted by law, we do not accept or assume responsibility to anyone other than the Authority and the Authority's members as a body, for our audit work, for this report, or for the opinions we have formed.

Respective responsibilities of Authority members and auditors

The Authority members' responsibilities for preparing the Annual Report and the Statement of Accounts in accordance with United Kingdom law and accounting standards (United Kingdom Generally Accepted Accounting Practice) are set out in the statement of Authority members' responsibilities.

Our responsibility is to audit the Statement of Accounts in accordance with relevant legal and regulatory requirements and International Standards on Auditing (UK and Ireland).

We report to you our opinion as to whether the Statement of Accounts gives a true and fair view and is properly prepared in accordance with the Broadcasting Act 1990 (as amended) and the Secretary of State's Accounts Direction. We also report to you whether in our opinion, the information given in the Report of the Authority is not consistent with the Statement of Accounts.

In addition we report to you if, in our opinion, the Authority has not kept proper accounting records, if we have not received all the information and explanations we require for our audit, or if information specified by law regarding Authority members' remuneration and other transactions is not disclosed.

We review whether the statement on Corporate Governance reflects the Authority's compliance with the seven provisions of the Combined Code and we report if it does not. We are not required to consider whether the Authority's statements on internal controls cover all risk and controls, or form an opinion on the effectiveness of the Authority's corporate governance procedures or its risk and control procedures.

We read other information contained in the Annual Report, and consider whether it is consistent with the audited Statement of Accounts. This other information comprises only the Chief Executive's Report, the Chairman's Statement and the Corporate Governance Statement. We consider the implications for our report if we become aware of any apparent misstatements or material inconsistencies with the Statement of Accounts. Our responsibilities do not extend to any other information.

Sail ein barn

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon) a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys ymchwilio, ar sail prawf, i'r dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau a'r datgeliadau yn y Datganiad Ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r arfarniadau arwyddocaol a wnaethpwyd gan yr Awdurdod wrth baratoi'r Datganiad Ariannol, ac o addaswyd y polisïau cyfrifo ar gyfer amgylchiadau'r Awdurdod, a'u bod wedi'u defnyddio'n gyson a'u datgelu'n ddigonol.

Cynlluniwyd a pherfformiwyd ein harchwiliad gyda'r nod o gael yr holl wybodaeth a phob eglurhad yr ystyriem yn angenrheidiol i roi i ni dystiolaeth ddigonol i fod yn rhesymol o sicr fod y Datganiad Ariannol yn rhydd o gamddatganiad sylweddol, boed drwy dwyll neu afreoleidd-dra neu gamgymeriad arall. Wrth lunio'n barn, yr oeddem hefyd yn arfarnu digonolrwydd cyffredinol y ffordd y cyflwynwyd yr wybodaeth yn y Datganiad Ariannol.

Barn

Yn ein barn ni:

mae'r Datganiad Ariannol yn rhoi darlun gwir a theg yn unol ag Arferion Cyfrifo sy'n dderbyniol yn gyffredinol yn y Deyrnas Unedig, o sefyllfa'r Awdurdod ac S4C ar 31 Rhagfyr 2007 ac o ganlyniad yr Awdurdod am y flwyddyn a derfynodd ar y dyddiad hwnnw;

mae'r Datganiad Ariannol wedi ei baratoi'n briodol yn unol â Deddf Darlledu 1990 (fel yr addaswyd) a Chyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol ar Gyfrifon; ac mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad Blynyddol yn gyson â'r Datganiad Ariannol.

Grant Thornton UK LLP
Archwilwyr Cofrestredig
Cyfrifyddion Siartredig
Caerdydd

11 Mehefin 2008

Basis of opinion

We conducted our audit in accordance with International Standards on Auditing (UK and Ireland) issued by the Auditing Practices Board. An audit includes examination, on a test basis, of evidence relevant to the amounts and disclosures in the Statement of Accounts. It also includes an assessment of the significant estimates and judgments made by the Authority members in the preparation of the Statement of Accounts, and of whether the accounting policies are appropriate to the Authority's circumstances, consistently applied and adequately disclosed.

We planned and performed our audit so as to obtain all the information and explanations which we considered necessary in order to provide us with sufficient evidence to give reasonable assurance that the Statement of Accounts is free from material misstatement, whether caused by fraud or other irregularity or error. In forming our opinion we also evaluated the overall adequacy of the presentation of information in the Statement of Accounts.

Opinion

In our opinion:

the Statement of Accounts gives a true and fair view, in accordance with United Kingdom Generally Accepted Accounting Practice, of the state of the Authority and S4C's affairs as at 31 December 2007 and of the result for the Authority for the year then ended;

the Statement of Accounts has been properly prepared in accordance with the Broadcasting Act 1990 (as amended) and the Secretary of State's Accounts Direction; and the information given in the Annual Report is consistent with the Statement of Accounts.

Grant Thornton UK LLP
Registered Auditors
Chartered Accountants
Cardiff

11 June 2008

	Nodyn	2007 £000	2006 £000
Incwm Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus a Throsiant y Gronfa Gyffredinol	2	100,059	96,701
Trosiant yr Awdurdod		100,059	96,701
Costau'r gwasanaeth rhaglenni		(88,393)	(83,653)
Costau darlledu a dosbarthu		(5,730)	(6,312)
Costau uniongyrchol eraill		(3,772)	(3,821)
Elw gros		2,164	2,915
Costau gweithredu a gweinyddu	3	(4,576)	(4,500)
Colled gweithredol	3	(2,412)	(1,585)
Eitem eithriadol	2a	2,706	-
		294	(1,585)
Llog net	5	883	2,033
Elw ar weithgareddau cyffredin cyn trethiant		1,177	448
Trethiant ar elw ar weithgareddau cyffredin	6	-	-
Elw ar ôl trethiant		1,177	448
Trosglwyddiad i Gronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus	14	(920)	(2,263)
Cadwyd yn y Gronfa Gyffredinol	14	257	(1,815)

Mae'r nodiadau ar dudalennau 36 i 63 yn ffurfio rhan o'r Datganiad Ariannol.

	Note	2007 £000	2006 £000
Public Service Fund Income and General Fund Turnover	2	100,059	96,701
Turnover of the Authority		100,059	96,701
Cost of programme service		(88,393)	(83,653)
Transmission and distribution costs		(5,730)	(6,312)
Other direct costs		(3,772)	(3,821)
Gross profit		2,164	2,915
Operational and administrative expenses	3	(4,576)	(4,500)
Operating loss	3	(2,412)	(1,585)
Exceptional item	2a	2,706	-
		294	(1,585)
Net interest	5	883	2,033
Profit on ordinary activities before taxation		1,177	448
Taxation on profit on ordinary activities	6	-	-
Profit after taxation		1,177	448
Transfer to the Public Service Fund	14	(920)	(2,263)
Retained in the General Fund	14	257	(1,815)

The notes on pages 36 to 63 form part of the Statement of Accounts.

Consolidated Profit and Loss Account For the year ended 31 December 2007

	Nodyn	£000	2007 £000	£000	2006 £000
Asedau Sefydlog					
Asedau diriaethol	8		7,222		7,532
Buddsoddiadau	9		-		-
			7,222		7,532
Asedau Cyfredol					
Stoc	10	24,208		23,260	
Dyledwyr	11	5,672		11,643	
Buddsoddiadau	12	30,237		846	
Arian yn y banc ac mewn llaw		6,837		29,769	
		66,954		65,518	
Credydwyr: symiau i'w talu o fewn blwyddyn	13	(11,840)		(10,997)	
Asedau Cyfredol Net			55,114		54,521
Rhwymedigaethau Pensiwn	21		-		(1,300)
Cyfanswm Asedau llai Rhwymedigaethau			62,336		60,753
Cronfeydd					
Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus	14		35,703		33,583
Cronfa Gyffredinol	14		26,633		27,170
Cyfanswm Cronfeydd			62,336		60,753

Cymeradwywyd y Datganiad Ariannol gan yr Awdurdod ar 11 Mehefin 2008.

John Walter Jones
Cadeirydd

Iona Jones
Prif Weithredwr

Mae'r nodiadau ar dudalennau 36 i 63 yn ffurfio rhan o'r Datganiad Ariannol.

	Note	£000	2007 £000	£000	2006 £000
Fixed Assets					
Tangible assets	8		7,222		7,532
Investments	9		-		-
			7,222		7,532
Current Assets					
Stock	10	24,208		23,260	
Debtors	11	5,672		11,643	
Investments	12	30,237		846	
Cash at bank and in hand		6,837		29,769	
			66,954	65,518	
Creditors: amounts falling due within one year	13	(11,840)		(10,997)	
Net Current Assets			55,114		54,521
Pension Liabilities	21		-		(1,300)
Total Assets less Liabilities			62,336		60,753
Reserves					
Public Service Fund	14		35,703		33,583
General Fund	14		26,633		27,170
Total Reserves			62,336		60,753

The Statement of Accounts was approved by the Authority on 11 June 2008.

John Walter Jones
Chair

Iona Jones
Chief Executive

The notes on pages 36 to 63 form part of the Statement of Accounts.

	Nodyn	£000	2007 £000	£000	2006 £000
Asedau Sefydlog					
Asedau diriaethol	8		7,222		7,532
Buddsoddiadau	9		-		-
			7,222		7,532
Asedau Cyfredol					
Stoc	10	24,208		23,260	
Dyledwyr	11	12,882		9,400	
Arian yn y banc ac mewn llaw		1,272		4,251	
		38,362		36,911	
Credydwyr: symiau i'w talu o fewn blwyddyn	13	(9,881)		(9,560)	
Asedau Cyfredol Net			28,481		27,351
Rhwymedigaethau Pensiwn	21		-		(1,300)
Cyfanswm Asedau llai Rhwymedigaethau			35,703		33,583
Cronfeydd					
Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus	14		35,703		33,583
Cronfa Gyffredinol	14		-		-
Cyfanswm Cronfeydd			35,703		33,583

Cymeradwywyd y Datganiad Ariannol gan yr Awdurdod ar 11 Mehefin 2008.

John Walter Jones
Cadeirydd

Iona Jones
Prif Weithredwr

Mae'r nodiadau ar dudalennau 36 i 63 yn ffurfio rhan o'r Datganiad Ariannol.

	Note	£000	2007 £000	£000	2006 £000
Fixed Assets					
Tangible assets	8	7,222		7,532	
Investments	9	-		-	
		7,222		7,532	
Current Assets					
Stock	10	24,208		23,260	
Debtors	11	12,882		9,400	
Cash at bank and in hand		1,272		4,251	
		38,362		36,911	
Creditors: amounts falling due within one year	13	(9,881)		(9,560)	
Net Current Assets			28,481		27,351
Pension Liabilities	21		-		(1,300)
Total Assets less Liabilities			35,703		33,583
Reserves					
Public Service Fund	14		35,703		33,583
General Fund	14		-		-
Total Reserves			35,703		33,583

The Statement of Accounts was approved by the Authority on 11 June 2008.

John Walter Jones
Chair

Iona Jones
Chief Executive

The notes on pages 36 to 63 form part of the Statement of Accounts.

	Nodyn	2007 £000	2006 £000
(Allanlif)/mewnlif net ariannol o weithgareddau gweithredol	15	(26,512)	1,317
Enillion ar fuddsoddiadau a chostau benthyciadau Llog a dderbyniwyd		876	1,626
Mewnlif net ariannol o enillion ar fuddsoddiadau a chostau benthyciadau		876	1,626
Trethiant		-	(8,500)
Pryniant cyfalafol a buddsoddiadau ariannol			
Pryniant asedau sefydlog diriaethol Gwerthiant buddsoddiad		(296) 3,000	(223) 6,250
Allanlif net ariannol o bryniant cyfalafol a buddsoddiadau ariannol		2,704	6,027
(Lleihad)/cynnydd mewn arian	16	(22,932)	470

**Prif Ddatganiad Arall. Datganiad Cyfanswm yr Enillion
a Cholledion Cydnabyddedig (STRGL)**

	2007 £000	2006 £000
Elw ar weithgareddau cyffredin ar ôl trethiant	1,177	448
Trosglwyddiad i'r Gronfa Gwasanaeth Cyhoeddus	(920)	(2,263)
Newid yng ngwerth marchnadol y buddsoddiad asedau cyfredol	(796)	-
Enillion actiwaraid ar asedau a rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn	1,200	400
Cyfanswm yr enillion a (cholledion) cydnabyddedig yn ystod y flwyddyn	661	(1,415)

Mae'r nodiadau ar dudalennau 36 i 63 yn ffurfio rhan o'r Datganiad Ariannol.

	Note	2007 £000	2006 £000
Net cash (outflow)/inflow from operating activities	15	(26,512)	1,317
Returns on investments and servicing of finance			
Interest received		876	1,626
Net cash inflow from returns on investments and servicing of finance		876	1,626
Taxation		-	(8,500)
Capital expenditure and financial investments			
Purchase of tangible fixed assets		(296)	(223)
Sale of investment		3,000	6,250
Net cash outflow from capital expenditure and financial investment		2,704	6,027
(Decrease)/increase in cash	16	(22,932)	470

Other Primary Statement. Statement of Total Recognised Gains and Losses (STRGL)

	2007 £000	2006 £000
Profit on ordinary activities after taxation	1,177	448
Transfer to the Public Service Fund	(920)	(2,263)
Change in market value of current asset investment	(796)	-
Actuarial gain on the pension scheme assets and liabilities	1,200	400
Total recognised gains and (losses) for the year	661	(1,415)

The notes on pages 36 to 63 form part of the Statement of Accounts.

Consolidated Cash Flow Statement For the year ended 31 December 2007

Nodiadau i'r Cyfrifon Am y flwyddyn a derfynodd 31 Rhagfyr 2007

1 Polisiau Cyfrifo

Gwelir isod brif bolisiau cyfrifo'r Awdurdod.

a Sail paratoïr Datganiad Ariannol

Paratowyd y Datganiad Ariannol o dan y confensiwn costau hanesyddol addasedig ac yn unol â pharagraff 12 (1) Atodlen 6 Deddf Darlledu 1990 (fel yr addaswyd), y Cyfarwyddyd Cyfrifon a ryddhawyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol a safonau cyfrifo perthnasol. Ceir copi o'r Cyfarwyddyd Cyfrifon o Swyddfa'r Wasg yn S4C.

b Sail cyfuno

Mae'r Datganiad Ariannol cyfun yn ymgorffori rhai S4C a'i his-ymgymeriadau (gweler nodyn 9) a luniwyd hyd at 31 Rhagfyr 2007. Caiff elw neu golledion ar drafodion grŵp eu dileu'n llawn. Pan gaiff is-gwmni ei brynu, caiff holl asedau a rhwymedigaethau'r is-gwmni sy'n bodoli ar ddyddiad ei brynu eu cofnodi yn ôl eu gwerthoedd teg gan adlewyrchu eu cyflwr ar y dyddiad hwnnw.

c Incwm

i Cynnwysir incwm o'r Adran dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon yn y cyfrif elw a cholled pan y'i derbynnir.

ii Mae incwm arall, sydd yn cynnwys incwm o werthu amser hysbysebu, hawliau mewn rhaglenni teledu, nawdd, marsiandïo, cyhoeddi, a gweithgareddau buddsoddi yn cael ei gydnabod yn y cyfrif elw a cholled ar sail gronol.

ch Costau rhaglenni

Caiff costau rhaglenni'r gwasanaeth cyhoeddus sydd wedi'u comisiynu eu dileu'n llwyr ar y darllediad cyntaf neu pan ddaw yn glir na fydd darllediad.

d Stoc rhaglenni a stoc arall

Mae costau uniongyrchol a gyfyd wrth gomisiynu neu brynu rhaglenni i'r gwasanaeth cyhoeddus sydd heb eu darlledu yn ymddangos fel stoc, ar ôl darparu ar gyfer gwariant ar ddeunydd nad yw'n debygol o gael ei ddarlledu. Am gyfres o raglenni, mae'r dosraniad stoc rhwng rhaglenni a orffennwyd ond heb eu darlledu a rhaglenni ar ganol eu cynhyrchu wedi ei seilio ar gyfanswm y gost hyd yn hyn ynghyd â chost gytundebol pob pennod a gwblhawyd.

Diffinnir cost uniongyrchol fel taliadau a wnaed neu sy'n ddyledus i gwmnïau cynhyrchu neu gyflenwyr rhaglenni.

Nodir stoc arall naill ai yn ôl eu cost neu eu gwerth net pe'u gwerthid, pa un bynnag yw'r isaf.

dd Incwm a dderbyniwyd cyn y gwariant perthynol

Oherwydd y polisiau uchod, derbyniwyd incwm o'r Adran dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon cyn cynnwys yr holl gostau yn y cyfrif elw a cholled. Ar ddyddiad y fantolen, trosglwyddir unrhyw incwm a dderbynnir ymlaen llaw i Gronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus. Pan mae costau perthynol yn codi, trosglwyddir symiau cyfatebol o incwm perthnasol o Gronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus i'r cyfrif elw a cholled. Mae'r cyfrif elw a cholled felly yn cynnwys trosglwyddiad net i Gronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus, neu oddi wrtho, yn adlewyrchu'r trosglwyddiadau hyn.

e Buddsoddiadau

Cyfrifir buddsoddiadau yn ôl yr hyn a dalwyd amdanynt llai unrhyw symiau sydd wedi'u dileu.

Notes to the Accounts For the year ended 31 December 2007

1 Accounting Policies

The principal accounting policies of the Authority are set out below.

a Basis of preparation of Statement of Accounts

The Statement of Accounts has been prepared under the modified historical cost convention and in compliance with paragraph 12 (1) of Schedule 6 to the Broadcasting Act 1990 (as amended), the Accounts Direction issued by the Secretary of State and applicable accounting standards. A copy of the Accounts Direction can be obtained from S4C's Press Office.

b Basis of consolidation

The consolidated Statement of Accounts incorporates those of S4C and of its subsidiary undertakings (see note 9) drawn up to 31 December 2007. Profits or losses on intra-group transactions are eliminated in full. On acquisition of a subsidiary, all of the subsidiary's assets and liabilities which exist at the date of acquisition are recorded at their fair values reflecting their condition at that date.

c Income

i Income from the Department for Culture, Media and Sport is credited to the profit and loss account when it is received.

ii Other income, which includes income from sales of airtime, rights in television programmes, sponsorship, merchandising, publishing and investment activities, is recognised in the profit and loss account on an accruals basis.

d Cost of programmes

The cost of commissioned public service programmes is wholly written off on first transmission or as soon as it becomes apparent that no transmission will result.

e Programme and other stocks

Direct costs incurred in the commissioning or purchase of public service programmes as yet untransmitted are carried forward as stock, after providing for expenditure on material which is unlikely to be transmitted. For a series of programmes, the allocation of stock between programmes completed but not yet transmitted and programmes in the course of production is based on total costs to date and the contractual cost per completed episode.

Direct cost is defined as payments made or due to production companies or programme suppliers.

Other stocks are stated at the lower of cost and net realisable value.

f Income received in advance of related expenditure

As a result of the above policies, income from the Department for Culture, Media and Sport is received in advance of all costs being charged to the profit and loss account. At the balance sheet date, any income received in advance is transferred to the Public Service Fund. As the related costs are charged, there is a corresponding transfer of the relevant income from the Public Service Fund to the profit and loss account. The profit and loss account therefore contains a net transfer to or from the Public Service Fund comprising these transfers.

g Investments

Investments are included at cost less amounts written off.

f Asedau sefydlog diriaethol

Cyfrifir asedau sefydlog diriaethol yn ôl yr hyn a dalwyd amdanynt ynghyd ag unrhyw gostau prynu perthnasol, llai dibrisiant. Caiff dibrisiant ei gyfrif er mwyn dileu cost yr ased sefydlog diriaethol llai gweddill ei werth yn gyfartal dros y cyfnod yr amcangyfrifir y caiff ei ddefnyddio. Mae'r prif gyfraddau a ddefnyddir i'r diben hwn fel a ganlyn:

Offer a chyfarpar 20%
Adeiladau rhyddfrait
dros 40 mlynedd

Caiff gwelliannau i adeiladau ar brydles fer eu dileu'n gyfartal dros gyfnod y brydles. Ni ddibrisir tir rhyddfrait.

ff Cyfraniadau pensiwn— Cynllun budd diffiniedig

Mae'r costau pensiwn a godir ar y cyfrif elw a cholled wedi'u seilio ar y dulliau a damcaniaethau actiwaraid sydd â'r amcan o wasgaru costau pensiwn disgwylidig dros fywydau gwasanaethol y gweithwyr sydd yn y cynllun, er mwyn sicrhau bod y gost pensiwn reolaidd yn cynrychioli canran sylweddol llyfn o'r gyflogres bensynadwy gyfredol a'r dyfodol disgwylidig. Gwastateir amrywiaethau o'r gost reolaidd dros weddill cyfartaledd bywydau gwasanaethol gweithwyr cyfredol y cynllun.

Cynllun cyfraniadau diffiniedig

Mae'r costau pensiwn a godir ar y cyfrif elw a cholled yn cynrychioli swm y cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun ar gyfer y cyfnod cyfrifo.

g Asedau wedi eu prydlesu

Caiff rhenti sydd yn daladwy o dan brydlesi gweithredol eu cynnwys yn gyfartal dros gyfnod y brydles drwy'r cyfrif elw a cholled.

ng Trethiant

Paratowyd y Datganiad Ariannol ar y sail na chodir unrhyw dreth ar symiau a dderbynia S4C oddi wrth yr Adran dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon.

Codir treth gorfforaeth ar elw sy'n cael ei gynhyrchu gan is-ymgymeriadau.

h Arian tramor

Cynhwysir asedau a rhwymedigaethau mewn arian tramor yn ôl y gyfradd gyfnewid ar ddyddiad y fantolen. Cynhwysir trafodion yn ôl y gyfradd gyfnewid ar y dyddiad mae'n digwydd. Mae gwahaniaethau cyfnewid sy'n codi o werthiannau tramor a chyfnewid arian yn cael eu dangos yn y cyfrif elw a cholled.

i Buddsoddiadau asedau cyfredol

Caiff buddsoddiadau asedau cyfredol eu cofnodi yn ôl yr hyn a dalwyd amdanynt i ddechrau, yna cânt eu hailbriso yn unol â'u gwerth ar y farchnad agored ar ddiwedd pob blwyddyn. Caiff unrhyw elw neu golled heb ei wireddu sy'n codi o ganlyniad i'r buddsoddiadau, ei gydnabod yn uniongyrchol mewn ecwiti, trwy gyfrwng datganiad cyfanswm yr enillion a cholledion cydnabyddedig.

h Tangible fixed assets

Tangible fixed assets are stated at cost, together with any incidental expenses of acquisition, less depreciation. Depreciation is calculated so as to write off the cost of the asset less its residual value on a straight line basis over its estimated useful life. The principal annual rates used for this purpose are as follows:

Plant and equipment	20%
Freehold buildings	
over 40 years	

Improvements to short leasehold buildings are amortised on a straight line basis over the remaining period of the lease. Freehold land is not depreciated.

i Pension contributions— Defined benefit scheme

The pension costs charged against the profit and loss account are based on the actuarial methods and assumptions designed to spread the anticipated pension costs over the service lives of the employees in the scheme, so as to ensure that the regular pension cost represents a substantially level percentage of the current and expected future pensionable payroll. Variations from regular cost are spread over the average remaining service lives of current employees in the scheme.

Defined contribution scheme

The pension costs charged to the profit and loss account represent the amount of the contributions payable to the scheme in respect of the accounting period.

j Leased assets

Operating lease rentals are charged to the profit and loss account on a straight line basis over the lease term.

k Taxation

The Statement of Accounts is prepared on the basis that taxation is not levied in relation to amounts received by S4C from the Department for Culture, Media and Sport.

Profits generated by subsidiary undertakings are subject to corporation tax.

l Foreign currencies

Monetary assets and liabilities denominated in foreign currencies are translated at the rates of exchange ruling at the balance sheet date. Transactions are translated at the rate ruling at the date of the transaction. Exchange differences arising on translation and transactions in foreign currencies are dealt with through the profit and loss account.

m Current asset investments

Current asset investments are initially recorded at cost and are revalued to their open market value at each year end. Any unrealised gain or loss arising on the investments shall be recognised directly in equity, through the statement of total recognised gains and losses.

2 Gwybodaeth Rannol - dosbarthau busnes

Derbynnir incwm Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus er mwyn i'r Awdurdod gyflawni ei gyfrifoldebau gwasanaeth cyhoeddus (o fewn ystyr Adran 207 Deddf Cyfathrebiadau 2003). Mae trosiant y Gronfa Gyffredinol yn cynrychioli'r incwm a grëwyd gan weithgareddau masnachol a gweithgareddau nad ydynt yn rhan o'r gwasanaeth cyhoeddus fel y caniateir o dan Adran 206 Deddf Cyfathrebiadau 2003 a'r darpariaethau trawsnewidiol ym mharagraff 27 Atodlen 18 Deddf Cyfathrebiadau 2003.

Incwm Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus a throsiant y Gronfa Gyffredinol

	2007		2006	
	£000	£000	£000	£000
Incwm Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus				
Incwm a dderbyniwyd oddi wrth ADCCh	94,395		90,857	
Incwm arall	155		169	
		94,550		91,026
Trosiant y Gronfa Gyffredinol				
Gwerthiant rhaglenni a hysbysebu	5,078		5,353	
Cyhoeddi a marsiandïo	431		322	
		5,509		5,675
Trosiant y grŵp		100,059		96,701

Ceir isod ddadansoddiad o drosiant y Gronfa Gyffredinol yn ôl marchnad ddaearyddol:

	2007		2006	
	£000	£000	£000	£000
Y Deyrnas Unedig	4,824		4,851	
Gweddill Ewrop	419		345	
Unol Daleithiau America	132		86	
Gweddill y Byd	134		393	
	5,509		5,675	
Colled gweithredol				
	2007		2006	
	£000		£000	
Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus				
Gweithgareddau Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus	(2,885)		(2,183)	
	(2,885)		(2,183)	
Cronfa Gyffredinol				
Gwerthiant rhaglenni a hysbysebu	1,388		1,496	
Cyhoeddi a marsiandïo	140		67	
Gweithgareddau eraill	(1,055)		(965)	
		473		598
		(2,412)		(1,585)

Asedau net

	2007		2006	
	£000	£000	£000	£000
Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus				
Gweithgareddau Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus	35,703		33,583	
		35,703		33,583
Cronfa Gyffredinol				
Gwerthiant rhaglenni a hysbysebu	5,498		4,618	
Cyhoeddi a marsiandïo	466		281	
Datblygu rhaglenni	(35)		(35)	
Gweinyddiaeth	1		73	
Gweithgareddau eraill	20,703		22,233	
		26,633		27,170
		62,336		60,753

2 Segmental information - classes of business

Public Service Fund income is received in order that the Authority may fulfil its public service responsibilities (within the meaning of Section 207 of the Communications Act 2003). General Fund turnover represents the income generated from commercial and other non-public service activities as permitted under Section 206 of the Communications Act 2003 and the transitional provisions contained in paragraph 27 of Schedule 18 to the Communications Act 2003.

Public Service Fund income and General Fund turnover

	2007		2006	
	£000	£000	£000	£000
Public Service Fund income				
Income received from the DCMS	94,395		90,857	
Other income	155		169	
		94,550		91,026
General Fund turnover				
Programme and airtime sales	5,078		5,353	
Publishing and merchandising	431		322	
		5,509		5,675
Group turnover		100,059		96,701

An analysis of General Fund turnover by geographical market is given below:

	2007		2006	
	£000	£000	£000	£000
United Kingdom	4,824		4,851	
The rest of Europe	419		345	
United States of America	132		86	
Rest of the World	134		393	
		5,509		5,675

Operating loss

	2007	2006
	£000	£000
Public Service Fund		
Public Service Fund activities	(2,885)	(2,183)
	(2,885)	(2,183)
General Fund		
Programme and airtime sales	1,388	1,496
Publishing and merchandising	140	67
Other activities	(1,055)	(965)
	473	598
	(2,412)	(1,585)

Net assets

	2007		2006	
	£000	£000	£000	£000
Public Service Fund				
Public Service Fund activities	35,703		33,583	
		35,703		33,583
General Fund				
Programme and airtime sales	5,498		4,618	
Publishing and merchandising	466		281	
Programme development	(35)		(35)	
Administration	1		73	
Other activities	20,703		22,233	
		26,633		27,170
		62,336		60,753

2a Eitem Eithriadol

Cydnabuwyd ar ôl elw gweithredol:

	2007 £000	2006 £000
Derbyniadau wrth werthu hawliau rhaglenni	3,000	-
Cost gwerthu hawliau rhaglenni	(294)	-
Derbyniadau net wrth werthu hawliau rhaglenni	2,706	-

3 Colled Gweithredol

Nodir y colled gweithredol ar ôl:

	2007 £000	2006 £000
Cost y gwasanaeth rhaglenni		
Dibrisiant ac amorteiddio	188	314
Costau staffio	6,473	6,330
Taliadau prydlesi gweithredol	62	54
Teithio a chynhaliaeth	160	140
Costau gweithredu a gweinyddu		
Costau staffio	1,553	1,711
Dibrisiant	419	370
Taliadau i'r archwilwyr:		
Gwasanaethau archwilio	49	46
Gwasanaethau eraill	37	48
Costau gweinyddu eraill	2,440	2,257
Taliadau prydlesi gweithredol:		
